

amser i liwio â'i law ei hun bob copi o bob llun sydd yn cario ei enw. Ef fyddai'n tynnu'r llun gwreiddiol ac yna byddai'r llun yn cael ei dorri ar blât copor. Yn aml byddai Sydenham Edwards ei hun yn gwneud y gwaith hwn o greu engrafiadau copor ac o'r platiau hyn yr argraffwyd y lluniau mewn du a gwyn. Ar y cychwyn gwyddom fod tua 30 o bobol yn cael eu cyflogi i liwio'r platiau ar gyfer y *Botanical Magazine*. Plant a menywod oedd y mwyafrif a wnaï'r gwaith hwn ac felly, fel y gallech ddisgwyl, gall ansawdd y lliwio amrywio. Byddai'r lliw-wyr yn gweithio drwy gyfeirio at gopi o'r llun a liwiwyd gan yr arlunydd ei hun. Syndod yw nodi na roddwyd y gorau i'r traddodiad o liwio platiau'r cylchgrawn â llaw tan 1948!

Parhaodd cysylltiad Sydenham Edwards â'r *Botanical Magazine* tan 1815, pan ddechreuodd gyhoeddiad newydd ar ei liwt ei hun, sef y *Botanists' Register*, ymhlith cyhoeddiadau eraill. Dialodd teulu William Curtis arno am hyn ac oherwydd hyn a'i gyfrifoldebau newydd, dechreuodd ei iechyd ddiodesdf. Bu farw yn ei gartref yn Chelsea ym mis Chwefror 1819, ac fe'i claddwyd ym mynwent hen eglwys Chelsea lle mae'n debyg yr oedd yn addoli'n gyson. Yn anffodus, bomiwyd ei garreg fedd yn y 'blitz'.

Mae'n amlwg o'i gynnyrch mawr fod Sydenham Edwards yn arlunydd cydwybodol a gweithgar ac er bod ei luniau i gyd yn safonol, mae ei luniau diweddarach ar gyfer y *Botanical Magazine* yn cael eu cyfrif ymhlith yr enghreifftiau gorau oll o'r math hwn o arlunio. Hyn ar ôl iddo ennill hyder fel arlunydd ac ar ôl iddo ennill dealltwriaeth o anatomeg planhigion. Mae'r lluniau hyn yn llawn bywyd gyda llinellau ei bin yn chwim ac egniol.

Rhaid cofio nad yn unig tynnu llun pert oedd ei fwriad. I'r arlunydd botanegol mae cywirdeb gwyddonol hefyd yn elfen bwysig. Mae'n rhaid i'r arlunydd ddangos neu hyd yn oed bwysleisio y nodweddion hynny sy'n gwneud un planhigyn yn wahanol i flodyn arall. Dyfrliw a phen ac inc yw'r defnyddiau gorau fel arfer i gyfleu manylion blodyn ac mae angen amynedd di-ben-draw er mwyn cofnodi'r manylion lleiaf — heb sôn am y ffaith fod rhaid aros tan dymor blodeuo'r planhigyn.

Er mai fel arlunydd blodau y cofiwn yn bennaf am Sydenham Edwards, ni ddylem dewi cyn sôn rhywfaint hefyd am ei ddawn fel arlunydd anifeiliaid. Mae'r llyfr *Cynographia Britannica* a gynhyrchodd ar ei liwt ei hun gan weithredu fel awdur / arlunydd /

cyhoeddwr ar ddechrau'r 1800au, yn cynnwys engrafiadau lliw o wahanol fathau o gŵn Prydain. I mi, 'drawn from life' yw'r geiriau pwysig ar wyneb-ddalen y llyfr hwn — geiriau sy'n addas i'w holl gynnyrch. Cyhoeddwyd y llyfr mewn rhannau a dim ond chwe rhifyn ymddangosodd. Erbyn heddiw, mae'n llyfr eithriadol o brin — amcangyfrifir y gall fod cyn lleied ag wyth copi cyflawn mewn bodolaeth, a phetai un yn digwydd dod ar y farchnad, byddai'n debyg o werthu am filoedd o bunnau. Felly yn 1992, gwnaeth Cymro o Bonterwyd dro da â ni wrth gyhoeddi

adargraffiad o 50 o gopiau'n unig o'r clasur hwn. Drwy weledigaeth y llyfrwerthwr Mr Clifford Hubbard, Ffynnon Cadno, Ponterwyd (sy'n arbenigo mewn llyfrau ar gŵn) casom gyfle i werthfawrogi o'r newydd waith cain Sydenham Edwards — a hynny mewn fersiwn a pherthynas ganddo â gwlad enedigol yr arlunydd — y wlad a wnaeth feithrin ei ddiddordeb yn y testun. Mae mwy nag un ffynhonnell yn tystio bod Sydenham Edwards yn gyfarwydd iawn â chŵn defaid a chŵn porthmyn ar fryniau a dolydd ardal ei blentyndod. Mae'n debyg ei fod hyd yn oed

wedi bod yn helpu i hyfforddi rhai o'r cŵn defaid hyn.

Gair i gloi — tybiaf mai addas yw'r teitl, 'yr arloeswr a'r arlunydd' i'r tipyn erthygl hon wrth i mi fod wedi ceisio adlewyrchu'r bartneriaeth arbennig honno rhwng yr arloeswr o gyhoeddwr, William Curtis a'i arlunydd, Sydenham Edwards. Galluogodd dawn yr artist i'r cyhoeddwr wireddu ei gynlluniau mewn modd mor llwyddiannus, ac yn ei dro fe ysbrydolodd ac fe hyfforddodd Curtis yr arlunydd i gyflawni campau — ei waith gorau bosib — gwaith o safon gyson eithriadol.



Plât 578 allan o'r *Botanical Magazine*: Blodyn y cleddyf, *Gladiolus Recurvus*, o waith Sydenham Edwards.